Dathlu Cymru Wledig
Celebrating Rural Wales



# Academi Addysg Awyr Agored Glantawe

Cymunedau Arloesol

## CYSYLLTU NATUR Â'R GYMUNED

Tra bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn dilyn addysg gonfensiynol, mae rhai unigolion yn ymddieithrio o'r ysgol ac angen anogaeth.

Yn 2020, gwelodd yr elusen gofrestredig Arena Pontardawe y cyfle i greu a datblygu rhaglen i helpu pobl ifanc yn yr ardal leol sydd wedi ymddieithrio i feithrin hunanhyder mewn amgylchedd ffafriol a oedd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a thu hwnt i'r cwricwlwm.

Byddai rhaglen Academi Addysg Awyr Agored Glantawe, oedd â'r nod o ddatblygu sgiliau rhyngddisgyblaethol trwy brofiad uniongyrchol, yn annog pobl ifanc i feddwl yn greadigol, wrth ddathlu eu sgiliau a'u doniau unigryw a rhoi'r cyfle iddyn nhw ailgysylltu â byd natur.

Wedi'i lleoli yn yr awyr agored ym Mharc 25 erw Glan-yr-afon Glantawe, Pontardawe, a chydag amrywiaeth eang o bynciau, byddai cyrsiau'r rhaglen yn helpu i ddatblygu diddordebau disgyblion mewn llawer o feysydd nad ydynt yn dod o dan addysg gonfensiynol. Gan weithio gyda grwpiau blwyddyn cyfan, byddai disgyblion ysgol uwchradd sydd wedi ymddieithrio yn cymryd rhan yn y rhaglen, tra byddai plant ysgol gynradd hefyd yn cael cymorth i ddatblygu gwytnwch a lleihau ymddieithrio.

Gan ddarparu ar gyfer pob gallu a phob oed, byddai'r rhaglen yn helpu i godi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau unigol a chyfunol, meithrin perthnasoedd parhaol, a dathlu unigrywiaeth pob unigolyn.

## MANTEISION Y CYLLID

Yn 2021, o dan thema Cymunedau Arloesol LEADER, derbyniodd prosiect Academi Addysg Awyr Agored Glantawe £72,059 o gyllid trwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Gyda'r cyllid roedd yr academi yn gallu ariannu ymarferwyr arweiniol i gyflwyno rhaglenni ysgol allweddol ar gyfer pob oed. Mae'r prosiect wedi adrodd am lwyddiant mawr gyda'r rhaglenni ysgolion cynradd, ar ôl treialu cyswllt amgylcheddol naturiol ar gyfer grwpiau blwyddyn cyfan dros y flwyddyn academaidd. Mae plant wedi dangos newid cadarnhaol o gymharu â grwpiau blwyddyn eraill o ran ymddygiad, presenoldeb a chyflawniad yn yr ystafell ddosbarth.

Mae disgyblion ysgolion uwchradd hefyd yn elwa o'r rhaglen. Ers cymryd rhan yn y rhaglen, mae disgyblion wedi cyflawni cymwysterau cenedlaethol Lefel 2, pan oedd y disgwyliad iddyn nhw lwyddo yn isel i ddechrau. Mae cymwysterau priodol Agored Cymru hefyd bellach wedi'u hymgorffori'n llwyddiannus mewn rhaglenni yn y dyfodol.





Fel rhan o weithgareddau'r rhaglen, mae pobl ifanc hefyd wedi cymryd rhan mewn prosiectau menter, a oedd yn cynnwys ymchwilio a chwblhau prosiectau adeiladu a gweithgynhyrchu gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu.

Mae'r amgylchedd naturiol hefyd wedi elwa o'r rhaglen. Mewn tîm sy'n ehangu o hyd, mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu at gynnal a chadw'r parc. Yn 2019, cynhaliwyd y cam olaf o glirio tir er mwyn caniatáu i laswelltir naturiol a phlanhigion dyfu. Mae datblygu cynefin cymysg yn y parcdir wedi bod yn elfen hanfodol o'r prosiect, i annog niferoedd ymwelwyr a bywyd gwyllt. Mae rhaglen adnabod planhigion wedi dechrau, i adnabod a gwarchod rhywogaethau prin fel tegeirian brych, tegeirian y gors a thegeirian pêr.

Ar ôl i gyfnodau clo Covid-19 ddod i ben, sefydlwyd prosiect gardd gymunedol hefyd gyda gardd fwytadwy a thwnnel polythen. Mae gwirfoddolwyr o'r ardal gyfagos yn gweithio ddwywaith yr wythnos yn cynnal a meithrin y planhigion y gall y plant a'r bobl ifanc eu mwynhau a dysgu o ble mae bwyd yn dod.

"Mae dangos i'r plant nad yw bwyd yn dod wedi'i lapio mewn plastig wedi bod yn anhygoel. Gallan nhw fwyta a blasu'r holl blanhigion rydyn ni'n eu tyfu o flodau bwytadwy i lysiau. Mae dod â nhw wyneb yn wyneb â natur wedi bod yn wych."

Sarah, gwirfoddolwr garddio Glantawe



## MAE'R DYFODOL YN DDISGLAIR...

Mae Parc Glan-yr-afon Glantawe bellach yn barcdir hardd ac yn destun balchder a phleser i'r gymuned leol. Mae'r prosiect wedi cyfrannu'n gadarnhaol at les ac addysg llawer o blant a phobl ifanc yn ardal Castell-nedd Port Talbot.

Ers iddo ddechrau, mae prosiect Academi Addysg Awyr Agored Glantawe wedi rhagori ar ei ddisgwyliadau o ran ei amcanion cychwynnol ac mae bellach yn ganolfan ragoriaeth..

"Ar ôl bod yn ymwneud â'r prosiect ers y dechrau, dros 12 mlynedd yn ôl, rydw i wedi ei weld yn esblygu ac yn datblygu i fod yn rhywbeth gwirioneddol ryfeddol. Rydyn ni wrth ein bodd â llwyddiant y rhaglen addysg awyr agored a hyd yn oed yn fwy felly wrth weld y safle'n datblygu i'r hyn ydyw heddiw.

"Cafodd y rhaglen ddechreuad araf, ond fe roddodd amser i ni gael cipolwg dyfnach ar sut y gallen ni ei chryfhau a'i gwneud mor effeithiol â phosibl. Nawr mae'r galw am ein rhaglen wedi dod hyd yn oed yn fwy nag yr oedden ni erioed wedi gobeithio.

"Tra mae ein gweithgareddau'n cael eu cynnal yn yr awyr agored, mae'n galonogol gweld y canlyniadau cadarnhaol yn ymddangos yn yr ystafell ddosbarth. Credwn fod ailgysylltu â byd natur nid yn unig yn gwella ymdeimlad o les, ond trwy dreulio amser y tu allan a bod yn gorfforol egnïol, mae'n gwneud dysgu'n fwy deniadol a diddorol.

"Rwy'n meddwl mai'r agwedd fwyaf calonogol rydym ni wedi'i gweld o ganlyniad i'r rhaglen yw bod cyfranogwyr blaenorol wedi dychwelyd ac yn trosglwyddo'r sgiliau maen nhw wedi'u dysgu i eraill. Mae ein gwirfoddolwyr hefyd yn ennill sgiliau personol trosglwyddadwy gwerthfawr tra'n cynnal a chadw'r parcdir. Mae'n dangos, o gael y cyfle a chydag ychydig o anogaeth, bod pobl ifanc yn poeni am wneud gwahaniaeth i'w bywydau, yr amgylchedd a'r gymuned ehangach."

Robert Clapham, sylfaenydd a chyn-gadeirydd